DEDDF PRIFFYRDD 1980

Gorchymyn Gwyro Llwybr Cyhoeddus
(Llwybr Troed Cyhoeddus Rhif 13 yng Nghymuned Gwersyllt)
Bwrdeistref Sirol Wrecsam 2005

Cadarnhawyd y Gorchymyn uchod, a wnaed ar 25ain Mai gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam dan Adran 119 o Ddeddf Priffyrdd 1980.

Effaith y Gorchymyn fel y'i cadarnhawyd yw gwyro'r Llwybr Troed Cyhoeddus a ddisgrifir yn Rhan 1 yr Atodiad i'r Rhybudd hwn i linell a ddisgrifir yn Rhan 2 yr Atodiad i'r Rhybudd hwn.

Mae copi o'r Gorchymyn a map y Gorchymyn wedi eu gosod yn Neuadd y Dref, Wrecsam a Swyddfa Bost, Stryd yr Hob, Gwersyllt a gellir eu gweld yno am ddim yn ystod oriau swyddfa/agor arferol. Gellir cael copïau o'r Gorchymyn a'r map am ddim o Neuadd y Dref, Wrecsam.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 26ain Mai 2005, ond os teimla unigolyn ei fod wedi ei dramglwyddo gan y Gorchymyn neu'n dymuno cwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaeth ynddo ar y sail nad yw o fewn y pwerau a roddir gan Ddeddf Priffyrdd 1980 fel y'i diwygiwyd neu ar y sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw ofyn dan y Ddeddf neu unrhyw reoliad arall a wnaed ganddi, gellwch ymgeisio i'r Uchel Lys i'r pwrpas hwn, dan baragraff 2 o Atodiad 2 i'r Gorchymyn fel a gynwhysir gan baragraff 5 o Atodiad 6 i'r Gorchymyn o fewn chwe wythnos o 26ain Mai 2005.

ATODIAD
Rhan 1
Disgrifiad o safle'r llwybr neu'r ffordd bresennol

Y rhan honno o Lwybr Troed Cyhoeddus Rhif 13 yng nghymuned Gwersyllt ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam o led amhenodol o bwynt ar gyfeirnod grid 33164 35326 i gyfeiriad gogledd-gogledd-orllewinol yn gyffredinol, yna i gyfeiriad gogledd-ddwyreiniol ac yna i gyfeiriad gogledd-orllewinol am oddeutu 168 metr i bwynt ar gyfeirnod grid 33158 35340 fel y dangosir gan linell ddu drom ddi-dor rhwng pwyntiau A a B ar y map sy'n atodedig i'r Rhybudd hwn.

Rhan 2
Disgrifiad o safle'r llwybr neu'r ffordd newydd

Llwybr Troed Cyhoeddus sy'n llwybr y mae gan y cyhoedd hawl tramwy arno ar droed yn unig, sydd ddim llai na 2.0 metr o led, a phan fo'n gaeedig, lled gyfan y llwybr o Lwybr Troed Cyhoeddus Rhif 13 yng nghymuned Gwersyllt o bwynt ar gyfeirnod grid 33164 35326 yn dilyn y llwybr presennol ag arwyneb i gyfeiriad gogleddol-gogledd-orllewinol yn gyffredinol ac yna i gyfeiriad gogleddol am oddeutu 159 metr at Lwybr Troed Cyhoeddus Rhif 13 ar gyfeirnod grid 33158 35340 fel y dangosir gan linell ddu drom doredig rhwng pwyntiau A a B ar y map sy'n atodedig i'r Rhybudd hwn.

Dyddiedig yr 26ain diwrnod hwn o Fai 2005.

Trevor Coxon
Prif Swyddog Cyfraith a Gweinyddiaeth
Neuadd y Dref
Wrecsam
LL11 1AY